

Adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

13 Rhagfyr 2022

1. Cefndir

1. Ar 18 Awst 2022, gosododd y Gweinidog Newid Hinsawdd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) ("y Bil") gerbron y Senedd. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ("y Memorandwm atodol (2)") ar 5 Hydref. Ysgrifennodd y Gweinidog at y Llywydd ar 24 Hydref yn nodi ei bwriad i osod Memorandwm atodol pellach. Gosodwyd y Memorandwm atodol ("y Memorandwm atodol (3)") pellach ar 17 Tachwedd 2022.

2. Ar 20 Medi 2022, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ("y Pwyllgor") a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 1 Rhagfyr 2022. Ar 22 Tachwedd, fe wnaeth y Pwyllgor Busnes gyfeirio'r Memorandwm atodol (3) i'r ddau bwyllgor a chytunwyd ar ddyddiad cau diwygiedig ar gyfer adrodd, sef 13 Ionawr 2023.

3. Trafodwyd y Memorandwm a'r Memorandwm atodol (2) am y tro cyntaf yn ein cyfarfodydd ar 27 Hydref. Hefyd, trafodwyd gohebiaeth yn ymwneud â'r Memorandwm yn ein cyfarfod ar 16 Tachwedd. Trafodwyd y Memorandwm atodol (3) yn ein cyfarfod ar 24 Tachwedd.

4. Bydd y Memoranda yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Ionawr 2023.



2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol

5. Mae paragraffau 5 i 16 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraff 17 yn nodi'r cymalau yn y Bil sy'n berthnasol i faterion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn benodol. Mae paragraffau 18 i 26 yn pennu'r darpariaethau yn y Bil y mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad ar eu cyfer.
6. Mae paragraff 29 o'r Memorandwm yn nodi casgliad Llywodraeth Cymru ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn drwy Fil y DU.
7. Mae'r Memorandwm atodol a osodwyd ar 5 Hydref yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl gwneud 42 o welliannau i'r Bil wrth iddo fynd drwy Dŷ'r Arglwyddi. Mae 39 o'r 42 gwelliant yn gwneud darpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
8. Mae paragraffau 17 i 45 o'r Memorandwm Atodol yn nodi'r newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae paragraffau 47 i 48 yn nodi casgliad Llywodraeth Cymru ei bod yn cefnogi'r Bil a'r gwelliannau a wnaed.
9. Mae'r ail Femorandwm – a osodwyd ar 17 Tachwedd – yn amlinellu 32 o welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, un gwelliant a gyflwynwyd gan arglwydd anllwywodraethol, a gefnogwyd gan Lywodraeth y DU ac un gwelliant nas cefnogwyd gan Lywodraeth y DU. Cafodd y gwelliannau eu hystyried a'u derbyn yng Nghyfnod Adrodd yr Arglwyddi ar 18 Hydref. Mae'r gwelliannau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
10. Mae paragraffau 18 i 34 o'r ail Femorandwm Atodol yn nodi'r newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol cyntaf. Mae paragraffau 36 i 37 yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau. Mae paragraffau 40 i 41 yn nodi casgliad Llywodraeth Cymru ei bod yn cefnogi'r Bil a'r gwelliannau a wnaed.

3. Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (2)

11. Er bod y Bil yn canolbwyntio ar reoleiddio tai cymdeithasol yn Lloegr, mae rhai darparwyr cofrestredig o Loegr yn berchen ar/yn rheoli stoc tai cymdeithasol yng Nghymru. I'r graddau, felly, y mae'r Bil yn berthnasol i reoleiddio darparwyr cofrestredig o Loegr sy'n berchen ar/yn

rheoli stoc tai cymdeithasol yng Nghymru, mae gan y Bil ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

12. Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer pob un o'r cymalau a ganlyn (fel y'u diwygiwyd yn y Pwyllgor), gan eu bod yn ymwneud â thai cymdeithasol, nad yw wedi'i gadw'n ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cymal 1

13. Ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr gefnogi darpariaeth tai sy'n ddiogel ("safe") (mae hyn yn ychwanegol at ddyletswydd bresennol y rheoleiddiwr i gefnogi darpariaeth tai sy'n cael eu rheoli'n dda ("well managed") ac sydd o ansawdd priodol ("appropriate quality").

14. Rhoddir amcan newydd i'r rheoleiddiwr hefyd, sef ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig fod yn dryloyw gyda thenantiaid.

Cymal 2

15. Ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr sefydlu Panel Cyngori, sy'n cynnwys lleisiau o bob rhan o'r sector, gan gynnwys tenantiaid a landlordiaid.

Cymal 3

16. Ehangu'r pŵer presennol i'r rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol i bersonau ddarparu dogfennau neu wybodaeth at ddibenion sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau rheoleiddio.

Cymal 4

17. Egluro y gall y rheoleiddiwr godi ffioedd am geisiadau ar gyfer cofrestru yn y lle cyntaf fel darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig (hyd yn oed ar gyfer ceisiadau aflwyddiannus).

Cymal 5

18. Grymuso'r rheoleiddiwr a'r ombwdsmon tai i gyfnewid gwybodaeth yn gyflym ac yn effeithiol, er mwyn darparu gwell amddiffyniad i denantiaid.

Cymal 6

19. Diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cofrestru fel darparwr cofrestredig, fel bod darparwyr yn bodloni gofynion corfforaethol penodol, gan ganiatáu i'r rheoleiddiwr i'w rheoleiddio mewn modd priodol.

Cymal 7

20. Galluogi'r rheoleiddiwr i bennu bod cofrestru darparwyr tai cymdeithasol yn amodol ar eu gallu i fodloni safonau rheoleiddio wrth gofrestru.

Cymal 8

21. Galluogi mwy o hyblygrwydd i'r rheoleiddiwr wrth bennu statws darparwr fel naill ai sefydliad sy'n gwneud elw neu sefydliad nad yw'n gwneud elw. Mae hyn yn caniatáu i'r rheoleiddiwr ddynodi statws y darparwr yn unol â sylwedd y modd y mae'r darparwr yn gweithredu.

Cymal 9

22. Caniatáu i'r rheoleiddiwr ddatgofrestru darparwr cofrestredig preifat sy'n methu â bodloni safonau penodol.

Cymal 10

23. Ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig benodi arweinydd iechyd a diogelwch.

Cymal 11

24. Rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n gosod dyletswyddau ar ddarparwyr cofrestredig mewn perthynas â safonau trydanol.

Cymal 12

25. Diwygio'r broses ar gyfer moratoriwm ar waredu tir darparwr cofrestredig. Yn ystod moratoriwm tai o'r fath, mae angen cydsyniad y rheoleiddiwr ymlaen llaw cyn y gellir gwerthu'r tir – mae hyn yn diogelu stoc tai cymdeithasol tra gellir chwilio am atebion i gefnogi darparwyr sydd mewn trafferthion ariannol. Mae'r cymal yn nodi'r digwyddiadau sy'n arwain at roi moratoriwm ar waith.

Cymal 13 (ac Atodlen 1)

26. Cymhwyso'r gyfundrefn gweinyddu tai a'r gyfundrefn moratoriwm tai i ddarparwyr cofrestredig preifat sy'n bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig.

Cymal 15

27. Gosod gofynion ar ddarparwyr cofrestredig sy'n gwneud elw i hysbysu'r rheoleiddiwr o wahanol ddigwyddiadau ailstrwythuro a diddymu.

Cymal 16

28. Ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig sy'n gwmnïau a chymdeithasau cofrestredig hysbysu'r rheoleiddiwr os yw cymdeithas gofrestredig nad yw'n ddarparwr cofrestredig yn penderfynu trosglwyddo ei ymgysylltiadau (h.y. asedau, dyledion ac ati) i'r darparwr cofrestredig.

Cymal 17

29. Ychwanegu gofynion newydd ar ddarparwyr cofrestredig i hysbysu'r rheoleiddiwr ynghylch newidiadau yng nghyfansoddiad y darparwr cofrestredig.

Cymal 18

30. Ychwanegu gofynion ar ddarparwyr cofrestredig i hysbysu'r rheoleiddiwr am ddigwyddiadau a allai effeithio ar reolaeth y darparwr cofrestredig.

Cymal 19

31. Galluogi'r rheoleiddiwr i osod safonau ar ddarparwyr cofrestredig ar gyfer darparu gwybodaeth a thryloywder i'w tenantiaid tai cymdeithasol ac i'r rheoleiddiwr.

Cymal 20

32. Galluogi'r rheoleiddiwr i gyhoeddi cod ymarfer mewn perthynas â'i safonau defnyddwyr.

Cymal 21

33. Galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo'r rheoleiddiwr mewn perthynas â safonau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig gydymffurfio â rheolau ynghylch darparu gwybodaeth i denantiaid.

Cymal 22

34. Dileu seiliau cyffredinol i'r rheoleiddiwr arfer pwerau ymyrryd, pan fydd darparwr cofrestredig yn methu â bodloni safonau. Yn hytrach, mae'r Bil (Atodlen 3) yn addasu'r seiliau y gall y rheoleiddiwr arfer y pwerau ymyrryd hynny.

Cymal 23

35. Rhoi pŵer i'r rheoleiddiwr gyfarwyddo darparwyr cofrestredig i gasglu, prosesu a chyhoeddi gwybodaeth ynghylch eu perfformiad mewn perthynas â safonau a bennir gan y rheoleiddiwr.

Cymal 24

36. Lleihau'r cyfnod rhybudd lleiaf y mae'n rhaid i'r rheoleiddiwr ei roi i ddarparwr cofrestredig a thenant cyn y gellir cynnal arolwg o gyflwr yr eiddo.

Cymal 25

37. Galluogi'r rheoleiddiwr i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwr cofrestredig baratoi cynllun gwella perfformiad, a'i roi ar waith.

Cymal 26

38. Galluogi'r rheoleiddiwr i drefnu camau adfer brys ar eiddo er mwyn cywiro methiannau gan y darparwr cofrestredig sy'n peri risgiau difrifol i iechyd a diogelwch, sydd ar fin digwydd.

Cymal 27

39. Rhoi pwerau gorfodi cryfach i'r rheoleiddiwr mewn perthynas ag elusennau cofrestredig nad ydynt wedi cael cymorth cyhoeddus.

Cymal 28

40. Ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr hysbysu'r Comisiwn Elusennau pan fydd yn arfer rhai pwerau gorfodi yn erbyn elusennau cofrestredig.

Cymal 29

41. Egluro y gall y rheoleiddiwr ddefnyddio ei bwerau mewn perthynas ag eiddo ar fenthyg lle mae buddiant y Goron neu Ddugiaeth.

Cymal 30 (ac Atodlen 3)

42. Darparu ar gyfer gwahanol bwerau rheoleiddio a gorfodi'r rheoleiddiwr.

Cymal 31

43. Egluro y bydd cartrefi ar les yn peidio â bod yn dai cymdeithasol, ni waeth sut mae'r les yn dod i ben. Mae'r cymal hwn hefyd yn cau bwlch oedd, o bosibl, yn gallu caniatáu i ddarparwr cofrestredig waredu stoc tai cymdeithasol heb hysbysu'r rheoleiddiwr na cheisio ei gydsyniad. Mae'r cymal hwn yn cael rhywfaint o effaith ôl-weithredol. Bydd yn gymwys i brydlesi a roddwyd ar 10 Mehefin 2022 neu wedi hynny.

Cymal 32

44. Ehangu ystyr "is-gwmni" fel ei fod yn berthnasol i gyrff ar wahân i gwmnïau.

Cymal 33 (ac Atodlen 4)

45. Diwygio'r broses ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau datgofrestru a chamau gorfodi.

Cymal 34

46. Rhoi pwerau amrywiol i'r ombwdsmon tai, gan gynnwys pŵer i gyhoeddi cod ymarfer yn ymwneud â thrin cwynion.

Cymal 35 (ac Atodlen 5, ac eithrio paragraff 36)

47. Gwneud amryw o fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

Cymal 36

48. Rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n ganlyniadol ar y Bil.

Memorandwm atodol (3)

49. Mae Memorandwm atodol (3) yn amlinellu'r diwygiadau sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd fel y maent yn gymwys i reoleiddio darparwyr cofrestredig yn Lloegr sydd â thai cymdeithasol yng Nghymru.

Cymal 1

50. Ychwanegu dyletswydd ychwanegol ar y rheoleiddiwr, sef cefnogi'r ddarpariaeth o dai sy'n effeithlon o ran ynni.

Cymal 7

51. Diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cofrestru fel darparwr cofrestredig, fel bod darparwyr yn bodloni gofynion corfforaethol penodol, gan ganiatáu i'r rheoleiddiwr i'w rheoleiddio mewn modd priodol.

Cymal 15

52. Dileu gofynion penodol ar ddarparwyr cofrestredig sy'n gwneud elw i hysbysu'r rheoleiddiwr o wahanol ddigwyddiadau ailstrwythuro a diddymu. Mae'r gofynion yn cael eu dileu o ganlyniad i gymalau 16 ac 17.

Cymal 16

53. Dileu gofyniad i'r rheoleiddiwr wneud penderfyniad ynghylch cofrestru pan fo darparwr yn trosi o fod yn gwmni i gymdeithas gofrestredig. Bydd cofrestriad y darparwr, felly, yn parhau (fel y bydd rhwymedigaethau'r darparwr).

Cymal 17

54. Amlinellu'r hyn y mae'n ofynnol i'r rheoleiddiwr ei wneud pan fydd cymdeithas gofrestredig yn cael ei hailstrwythuro a'i bod yn arwain at greu corff newydd neu at drosglwyddo ymrwymadau i gorff nad yw'n ddarparwr cofrestredig. Mae'r adran newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr benderfynu a ddylai gofrestru'r corff ai peidio ac mae'n disgrifio sut y dylid trin y corff tra'n aros am y penderfyniad hwnnw.

Cymal 18

55. Mae'r gofynion hysbysu yn y cymal hwn yn cael eu diwygio o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed yng nghymal 17, o ran penderfyniad y rheolydd i gofrestru'r corff ai peidio.

Cymal 21

56. Mae'r cymal newydd hwn yn rhoi pŵer ychwanegol i'r rheolydd osod safonau sy'n ymwneud â chymhwysedd ac ymddygiad darparwyr cofrestredig.

Cymal 22

57. Mae pwerau amrywiol y rheolydd i gymryd camau gorfodi yn cael eu diwygio o ganlyniad i gymal 21.

Cymal 24

58. Ychwanegu safon sy'n ymwneud â'r galw am ynni, ac yn amlinellu gofyniad newydd ar y rheoleiddiwr i roi sylw i strategaeth Llywodraeth y DU ar leihau'r galw am ynni am eiddo tai cymdeithasol, y mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd o dan y cymal hwn ei chyhoeddi.

Cymal 25

59. Gwneud diwygiadau sy'n ymwneud â phŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i roi cyfarwyddiadau, o ganlyniad i'r pwerau ychwanegol a roddir i'r rheoleiddiwr i osod safonau o dan gymal 21.

Cymal 27

60. Gwneud diwygiadau i bŵer y rheolydd i gyfarwyddo darparwyr cofrestredig i ddarparu gwybodaeth am eu perfformiad, o ganlyniad i'r pwerau ychwanegol a roddwyd i'r rheolydd i osod safonau o dan gymal 21.

Cymal 28

61. Ymestyn y cyfnod rhybudd y mae'n rhaid i'r rheoleiddiwr ei roi i ddarparwr cofrestredig a thenant cyn y gellir cynnal arolwg o gyflwr yr eiddo.

Cymal 29

62. Gosod dyletswyddau newydd ar y rheolydd i gynhyrchu, cyhoeddi, gweithredu a chynnal cynllun i gynnal arolygiadau o ddarparwyr cofrestredig.

Cymal 30

63. Mae pwerau'r rheolydd i ddwyn darparwyr cofrestredig i gyfrif wedi'u diwygio, o ganlyniad i'r pwerau ychwanegol a roddwyd i'r rheolydd i osod safonau o dan gymal 21.

Cymal 31

64. Egluro'r gofynion hysbysiad mynediad os bydd camau adfer brys, er enghraifft, mai dim ond pan fydd yr annedd yn cael ei meddiannu y mae angen rhoi hysbysiad.

Atodlen 5 (ac eithrio paragraff 48)

65. Mae diwygiadau amrywiol wedi'u gwneud i Atodlen 5, gan gynnwys egluro'r canlynol:

- Mae pŵer y rheolydd i osod safonau yn ymestyn i safonau effeithlonrwydd ynni;
- caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo'r rheoleiddiwr ynghylch gosod safonau mewn effeithlonrwydd ynni;
- mae dyletswydd y rheolydd i ymgynghori â chyrrff cynrychioli tenantiaid yn cyfeirio at gyrff cynrychioli tenantiaid tai cymdeithasol yn benodol.

4. Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn yng Nghymru

66. Mae paragraff 29 o'r Memorandwm a pharagraffau 44 a 45 o'r Memorandwm atodol (2) yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. Mae'r Memorandwm yn datgan:

"mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU o ystyried y niferoedd bach o stoc tai cymdeithasol yng Nghymru y mae darparwr cofrestredig a leolir yn Lloegr yn berchen arnynt neu'n eu rheoli."

67. Mae paragraff 45 o'r Memorandwm atodol (2) yn dweud:

"Bwriedir y bydd y Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod y cyfnod pwyllgor, yn arwain at welliannau ym mherfformiad darparwyr cofrestredig, gan gryfhau hawliau

tenantiaid a sbarduno newid yn ymddygiad landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid, a sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad. Bydd hyn yn arwain at newid cadarnhaol i bob tenant darparwyr cofrestredig o Loegr, gan gynnwys y 8tenantiaid Cymreig hynny y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt ac felly rwy'n fodlon y dylid gwneud y darpariaethau hyn mewn Bil Seneddol y DU."

68. Mae paragraff 40 o'r Memorandwm atodol (3) yn ailddatgan barn Llywodraeth Cymru ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn un o Filiau Senedd y DU. Mae hefyd yn nodi:

"Y bwriad at ei gilydd yw y bydd y Bil, fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, yn arwain at wella perfformiad darparwyr cofrestredig, yn cryfhau hawliau tenantiaid ac yn ysgogi newid yn ymddygiad landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid, ac yn sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad."

5. Trafodaeth a chasgliad y Pwyllgor

69. Trafodwyd y Memorandwm a'r Memorandwm atodol (2) i ddechrau yn ein cyfarfodydd ar 27 Hydref. Rydym yn nodi bod y Memorandwm atodol (2) yn datgan:

"cymharol ychydig o eiddo sydd yng Nghymru sy'n eiddo i ddarparwyr cofrestredig o Loegr a/neu a reolir ganddynt, a fydd yn ddarostyngedig i'r newidiadau mewn amgylchedd rheoleiddio a ddisgrifir gan y Bil."

70. Fe wnaethom ni ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd ar 31 Hydref i ofyn am ragor o fanylion am nifer yr eiddo yng Nghymru sy'n perthyn i'r categori hwn a'u lleoliad. Fe wnaethom ni drafod ymateb y Gweinidog ar 16 Tachwedd.

71. Rydym yn nodi bod ymateb y Gweinidog yn cadarnhau bod 18 o Ddarparwyr Cofrestredig sy'n berchen ar tua 530 o gartrefi/unedau yng Nghymru ac yn eu rheoli a fydd yn ddarostyngedig i'r newidiadau a gynigir yn y Bil. Er bod nifer yr eiddo yn gymharol fach, rydym yn credu, mewn egwyddor, y dylai'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â meysydd cymhwysedd datganoledig gael ei gwneud yng Nghymru a bod yn destun gwaith craffu llawn gan y Senedd.

72. Trafodwyd y Memorandwm atodol (3) yn ein cyfarfod ar 24 Tachwedd.

73. Rydym yn credu'n gryf fod yr amser byr a neilltuir i'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn annigonol i'n galluogi i ddeall yn llawn beth yw effaith darpariaethau ar fywydau pobl yng

Nghymru. Rydym yn pryderu y gall deddfu fel hyn roi pobl yng Nghymru dan anfantais gan fod ganddynt lai o gyfleoedd i rannu eu barn gyda'r rhai sy'n llunio'r ddeddfwriaeth, ac nid oes gennym gyfle i brofi'r darpariaethau gyda rhanddeiliaid yng Nghymru. Mewn egwyddor, rydym yn credu mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

74. Rydym hefyd yn pryderu am amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer gosod Memorandwm atodol (3). Rydym yn nodi bod llythyr y Gweinidog at y Llywydd yn nodi, oherwydd yr hysbysiad hwyr am y gwelliannau a gyflwynwyd, na fyddai'n bosibl gosod Memorandwm atodol (3) o fewn terfyn amser arferol y Rheol Sefydlog o bythefnos. Rydym yn credu bod hyn yn anfoddhaol ac yn amlygu gwendid y broses cydsyniad deddfwriaethol, sy'n arwain at ddiffyg gwaith craffu.

75. Er gwaethaf y pryderon a amlinellir uchod, mae'r rhan fwyaf o'r Aelodau'n teimlo y gallant argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i ddeddfu ar y materion datganoledig hyn y tro hwn. Mae un Aelod o'r Pwyllgor, sef Mabon ap Gwynfor AS, yn anghytuno â barn y mwyafrif, ac o'r farn na ddylid rhoi cydsyniad.